

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 67/2015



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Camau 8 a 9

Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd at Roi Organau: Camau 8 a 9

**Ian Jones a Rebecca Cox
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru**

Casglwyd y data gan Beaufort Research Ltd

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Rebecca Cox

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: rhoi.organau@cymru.gsi.gov.uk.

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 1 Rhagfyr 2015

ISBN: 978-1-4734-5190-2

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau a ffigurau	ii
Prif ganfyddiadau	1
1. Cyflwyniad	4
1.1 Cefndir	4
1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol	4
2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau	5
2.1 Ymwybyddiaeth ddigymell o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau	5
2.2 Ffynhonnell a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau	8
2.3 Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau	8
3. Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau	11
3.1 Lefelau cefnogaeth i'r system optio allan	11
3.2 Y rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan	13
4. Ymddygiad dan system feddal o optio allan o roi organau	14
4.1 Ymddygiad ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd	16
5. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu	18
6. Yr ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis'	19
6.1 Ymwybyddiaeth o'r ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis'	19
6.2 Ffynhonnell a dealltwriaeth o'r ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis'	20
6.3 Ymwybyddiaeth o daflen yr ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis'	20
Atodiad A: Methodoleg	21
Atodiad B: Holiadur	25

Rhestr o'r tablau a'r ffigurau

Tablau

Tabl A.1	Diffinio rhanbarthau	22
Tabl A.2	Diffinio grwpiau cymdeithasol	23
Tabl A.3	Niferoedd is-samplau yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol	24

Ffigurau

Ffigur 2.1	A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau?	5
Ffigur 2.2	Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl rhanbarth	6
Ffigur 2.3	Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl oedran	7
Ffigur 2.4	A ydych wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid hwn cyn heddiw?	9
Ffigur 2.5	Wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid yn y gyfraith, yn ôl oedran	10
Ffigur 3.1	Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich barn chi orau?	11
Ffigur 3.2	Cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl rhanbarth	12
Ffigur 3.3	Cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl oedran	13
Ffigur 4.1	Pan gaiff y system newydd o optio allan ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r hyn yr ydych yn credu y byddwch chi'n ei wneud?	14
Ffigur 4.2	Ymddygiad a nodwyd, yn ôl rhanbarth	15
Ffigur 4.3	Ymddygiad a nodwyd, yn ôl oedran	16
Ffigur 4.4	Ymddygiad dan y system optio allan, a nodwyd ymhlith ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd	17
Ffigur 5.1	Cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi cael trafodaeth rywbryd ag aelod o'r teulu am eu dymuniadau ynglŷn â rhoi organau ar ôl eu marwolaeth	18
Ffigur 6.1	Ymwybyddiaeth o hysbysebion neu wybodaeth yr ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis', yn ôl oedran	19
Ffigur 6.2	Ymwybyddiaeth o daflen yr ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis', yn ôl rhanbarth	20

Prif ganfyddiadau

Cefndir

- Mae Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer cydsynio i roi organau a meinweoedd person ymadawedig yng Nghymru, a fydd yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2015.
- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau sy'n golygu bod modd monitro agweddau, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r system rhoi organau yng Nghymru. Cafodd cwestiynau am roi organau eu gofyn yn Arolygon Omnibws Cymru ym mis Mehefin 2015 (cam 8) a mis Medi 2015 (cam 9), a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd.
- Yng nghanam 8 cafodd yr ystod lawn o gwestiynau eu gofyn a oedd yn ymdrin â lefelau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad ynglŷn â rhoi organau a chyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru. Bu cam 9 yr arolwg yn canolbwyntio ar fonitro lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid yn y gyfraith, ac roedd yn cynnwys cwestiynau ychwanegol i fesur ymwybyddiaeth o ddeunydd ymgyrchoedd cyhoeddusurwydd a'r graddau yr oedd pobl yn eu cofio.
- Lle bo'n bosibl caiff y canfyddiadau eu cymharu â chamau blaenorol yr arolwg, a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2012 (cam 1) a mis Mawrth 2015 (cam 7).

Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau. Yng nghanam 8 dywedodd **oddeutu dwy ran o dair** o'r ymatebwyr (66 y cant) eu bod yn ymwybodol o newidiadau. Cynyddodd y ganran hon i 69 y cant yng nghanam 9.

- Yng nghanam 9 nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ymwybyddiaeth pobl o'r newidiadau, yn ôl rhanbarth. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol ac roedd lefelau ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith:
 - Pobl 16 i 34 oed;
 - Dynion; ac
 - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.
- O blith y sawl a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau i'r system rhoi organau, dywedodd y mwyafrif eu bod wedi dod yn ymwybodol ohonynt drwy raglen newyddion neu raglen arall ar y teledu (51 y cant yng nghanam 8, 45 y cant yng nghanam 9) a'r ymateb mwyaf poblogaidd nesaf oedd eu bod wedi dod yn ymwybodol ohonynt drwy hysbyseb ar y teledu (22 y cant yng nghanam 8, 35 y cant yng nghanam 9) neu daflen (19 y cant yng nghanam 8, 10 y cant yng nghanam 9).
- Gofynnwyd cwestiwn agored hefyd i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, sef 'A allwch ddweud wrthyf sut yr ydych yn credu y bydd y system yn newid?'. Yng nghanam 8 dywedodd wyth o bob deg (80 y cant) y byddai'n newid i system optio allan neu system cydsyniad tybiedig. Cynyddodd y ganran hon i 82 y cant yng nghanam 9.

Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau

- Cafodd yr holl ymatebwyr weld disgrifiad o'r system newydd ar gyfer rhoi organau a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani o'r blaen. Yng nghanam 8 dywedodd oddeutu **saith o bob deg** o ymatebwyr (71 y cant) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid. Cynyddodd y ganran hon ryw ychydig i 72 y cant yng nghanam 9.
- Yng nghanam 9 nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith, yn ôl rhanbarth na rhyw.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol ac roedd lefelau ymwybyddiaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith:

- Pobl 16 i 34 oed; ac
- Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid neu yn erbyn y newid yn y ddeddfwriaeth ynteu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu. Fel sydd wedi bod yn wir ers cam 1, mae mwyafrif clir yn parhau i gefnogi'r newid yn y ddeddfwriaeth. Yng nghanam 8:
 - Roedd 67 y cant **o blaid**;
 - Roedd 14 y cant **yn erbyn**; ac
 - Roedd **angen rhagor o wybodaeth** ar 19 y cant i benderfynu, neu nid oeddent yn gwybod.
- Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn agweddau at y newidiadau, yn ôl rhyw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran a grŵp cymdeithasol ac roedd lefelau cefnogaeth i'r newid yn y ddeddfwriaeth yn tueddu i fod yn is ymhlith:
 - Ymatebwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru;
 - Pobl 55+ oed; ac
 - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.
- Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd dros fod o blaid y newid oedd y ffaith y byddai'n arbed mwy o fywydau ac y byddai'n fanteisiol i bobl eraill.
- Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd dros fod yn erbyn y newid oedd ei fod yn amddifadu'r unigolyn rhag y gallu i ddewis ac nad ydynt hwy am roi organau.

Ymddygiad dan system feddal o optio allan o roi organau

- Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth y maent yn credu y byddant hwy'n ei wneud pan fydd y system feddal o optio allan o roi organau'n cael ei chyflwyno. Yng nghanam 8:
 - Byddai 73 y cant yn **optio i mewn neu'n gwneud dim**;
 - Byddai 12 y cant yn **optio allan**; ac
 - **Nid oedd** 15 y cant **yn gwybod**.
- Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim yn amrywio o chwech o bob deg yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (61 y cant) i wyth o bob deg yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru (79 y cant).
- Roedd ymatebwyr 55+ oed yn llai tebygol nag ymatebwyr iau o ddweud y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim, ac yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn optio allan.
- Roedd gwahaniaethau arwyddocaol hefyd yn ôl grŵp cymdeithasol ac roedd ymatebwyr ABC1 yn fwy tebygol nag ymatebwyr C2DE o optio i mewn neu wneud dim.
- O blith yr ymatebwyr yng nghanam 8 a ddywedodd eu bod wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd, dywedodd 97 y cant y byddent yn optio i mewn neu'n aros ar y gofrestr, sy'n cynnal y gyfran uchel a gofnodwyd yn ystod camau diweddar.

Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych erioed wedi cael trafodaeth ag aelod o'r teulu am eich dymuniadau ynglŷn â rhoi organau ar ôl eich marwolaeth?'. Oddeutu pedwar o bob deg oedd y gyfran ym mhob un o'r camau blaenorol. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu yn cyfateb i 39 y cant yng ngham 8, a chynyddodd y gyfran i 46 y cant yng ngham 9.
- Yng ngham 8 roedd cyfran fwy o lawer o fenywod (42 y cant) na dynion (36 y cant) wedi cael trafodaeth ag aelod o'r teulu am eu dymuniadau ynglŷn â rhoi organau, ac roedd cyfran fwy o lawer o ymatebwyr ABC1 (46 y cant) nag ymatebwyr C2DE (34 y cant) wedi cael trafodaeth o'r fath.
- Yng ngham 9 roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol, ac roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi cael trafodaeth ag aelod o'r teulu am eu dymuniadau'n tueddu i fod yn is ymhlith:
 - Ymatebwyr yng Ngogledd Cymru;
 - Pobl 16 i 34 oed;
 - Dynion; ac
 - Ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE.

Yr ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis'

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebion neu wybodaeth am y gyfraith newydd ynglŷn â rhoi organau yng Nghymru?'. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld neu glywed yr hysbysebion am roi organau yn cyfateb i 55 y cant.
- O blith yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r hysbysebion am roi organau, roedd saith o bob deg wedi dod yn ymwybodol o'r newid drwy hysbyseb ar y teledu (70 y cant), roedd oddeutu un o bob pump wedi dod yn ymwybodol o'r newid drwy raglen ar y teledu (19 y cant) ac roedd un o bob deg wedi dod yn ymwybodol o'r newid drwy hysbyseb ar y radio (12 y cant) a thaflen (8 y cant).
- Cafodd yr holl ymatebwyr eu holi am y daflen yn benodol. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: 'Hoffwn i pe baech chi'n edrych ar rai tudalennau o lyfryn gwybodaeth. A yw eich cartref wedi cael un o'r rhain drwy'r post neu beidio?'. Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd fod eu cartref wedi cael un yn cyfateb i 16 y cant, dywedodd oddeutu wyth o bob deg o'r ymatebwyr (81 y cant) nad oeddent wedi cael y daflen a dywedodd 4 y cant nad oeddent yn gwybod.

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer cydsynio i roi organau a meinweoedd person ymadawedig yng Nghymru, a fydd yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch cyfathrebu cyn i'r system newydd ddod i rym, er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael gwybodaeth lawn am yr hyn y bydd y newidiadau'n ei olygu ac am y dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a dylanwadu ar y modd y bydd yn datblygu, mae angen gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r gyfraith sy'n ymwneud â rhoi organau ac am agweddau at newidiadau i'r ddeddfwriaeth yng Nghymru. Dwysaodd yr ymgyrch ran o'r ffordd drwy'r gwaith maes ar gyfer cam 8 wrth i hysbysebion newydd gael eu darlledu ar y teledu a'r radio ac wrth i daflenni sy'n egluro'r newid yn y gyfraith gael eu dosbarthu i bob cartref yng Nghymru o 15 Mehefin 2015 ymlaen.

Er mwyn diwallu'r anghenion hyn o ran ymchwil, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru a gynhelir gan Beaufort Research Ltd. Caiff data ei gasglu'n rheolaidd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mehefin 2016.

1.2 Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Yng ngham 8 cafodd yr ystod lawn o gwestiynau eu gofyn a oedd yn ymdrin â lefelau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth, agweddau ac ymddygiad ynglŷn â rhoi organau a chyflwyno system feddal o optio allan yng Nghymru. Bu cam 9 yr arolwg yn canolbwyntio'n llwyr ar fonitro lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r newid yn y gyfraith.

Cafodd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg ar gyfer cam 8 (1,018 o ymatebwyr) ei gynnal rhwng 8 a 21 Mehefin 2015, a chafodd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg ar gyfer cam 9 (1,008 o ymatebwyr) ei gynnal rhwng 14 a 27 Medi 2015. Cafodd rhai cyfweiliadau eu cynnal ar ôl y dyddiadau hyn yn y ddau gam. Bwriedir i'r arolwg gynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth ffeithiol am y canlyniadau ac mae'n cyflwyno canfyddiadau am agweddau aelodau'r cyhoedd at y system rhoi organau ac am eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth ohoni – nid yw'n archwilio cysylltiadau achosol. Lle bo'n bosibl caiff y canfyddiadau eu cymharu â chymharu blaenorol yr arolwg, a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mawrth 2015¹. Mae'r dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio hefyd i ddylanwadu ar y modd y caiff gwaith cyfathrebu ei dargedu ymhlith gwahanol grwpiau o'r boblogaeth.

1.3 Gwahaniaethau arwyddocaol

Cynhaliwyd profion arwyddocâd ystadegol ar y data wrth ddadansoddi er mwyn helpu i ddehongli'r canlyniadau a dylanwadu ar yr ymgyrch cyfathrebu. Pan gaiff gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp ei ddisgrifio fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, mae hynny'n golygu bod y tebygolrwydd o gael y canfyddiad hwnnw ar hap yn llai nag un mewn 20 – hy mae'n debygol o adlewyrchu perthynas wirioneddol yn y boblogaeth².

Ceir mwy o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg yn Atodiad A. Mae'r holiadur llawn i'w weld yn Atodiad B.

¹ Mae'r adroddiad ar gael yn y fan hon: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=cy>

² Pan gynhelir profion arwyddocâd ystadegol ar ddata arolwg, tybir bod y sampl a gafwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio dull samplu cwota cyfrannol ni ellir, a bod yn fanwl gywir, sefydlu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol. Felly, mae gwahaniaethau 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at wahaniaethau arwyddocaol ffug-ystadegol ar lefel hyder o 95 y cant.


2. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau

2.1 Ymwybyddiaeth ddigymell o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd i'r ymatebwyr, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau.

Yng ngham 8 dywedodd oddeutu dwy ran o dair o'r ymatebwyr (66 y cant) eu bod yn ymwybodol o newidiadau. Yng ngham 9 cynyddodd y ganran hon i 69 y cant (Ffigur 2.1).

Ffigur 2.1: A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau a fydd yn digwydd i'r system bresennol o roi organau?^a




Sylfaen: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,022 (C7 Mawrth 2015); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015)

(a) Yng nghamau 1 a 2 gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system bresennol o roi organau?'

Yng ngham 8 roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ymwybyddiaeth pobl o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl rhanbarth. Fodd bynnag, yng ngham 9 nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth. Fel y gwelir yn Ffigur 2.2, yng ngham 8 roedd lefelau ymwybyddiaeth yn amrywio o oddeutu chwech o bob deg o ymatebwyr yn y Cymoedd, Bae Abertawe a Gogledd Cymru i dri chwarter yr ymatebwyr yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Yng ngham 9 cododd lefelau ymwybyddiaeth rhwng un pwynt canran a 12 pwynt canran ym mhob ardal ar wahân i Ganolbarth a Gorllewin Cymru lle gwelwyd lefelau ymwybyddiaeth yn gostwng 5 pwynt canran.


Ffigur 2.2: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl rhanbarth



Sylfaen: 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015)

Yng ngham 8 a cham 9 roedd gwahaniaeth arwyddocaol hefyd yn ymwybyddiaeth pobl o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl oedran. Fel y gwelir yn Ffigur 2.3, ychydig dros hanner yr ymatebwyr (55 y cant) dan 35 oed a oedd yn ymwybodol o unrhyw newidiadau, o gymharu ag oddeutu saith o bob deg o ymatebwyr rhwng 35 a 54 oed (70 y cant) ac ymatebwyr 55 oed neu hŷn (72 y cant). Yng ngham 9 cododd lefelau ymwybyddiaeth yr ymatebwyr dan 35 oed i oddeutu chwech o bob deg (61 y cant). Yn achos ymatebwyr rhwng 35 a 54 oed ac ymatebwyr 55 oed neu hŷn cododd lefelau ymwybyddiaeth ryw ychydig i 73 y cant ar gyfer y ddau grŵp.

Ffigur 2.3: Ymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl oedran



Sylfaen: 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015)

Roedd gwahaniaeth arwyddocaol hefyd yn ôl grŵp cymdeithasol ar gyfer cam 8 a cham 9. Roedd cyfran uwch o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn ymwybodol o newidiadau (72 y cant yng ngham 8; 76 y cant yng ngham 9) o gymharu ag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (62 y cant yng ngham 8; 65 y cant yng ngham 9).

Yng ngham 8 nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ymwybyddiaeth pobl o newidiadau, yn ôl rhyw. Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng ngham 9. Roedd cyfran uwch o fenywod yn ymwybodol o'r newidiadau (68 y cant yng ngham 8; 72 y cant yng ngham 9) o gymharu â dynion (65 y cant yng ngham 8; 66 y cant yng ngham 9).

2.2 Ffynhonnell a dealltwriaeth o newidiadau i'r system rhoi organau

Gofynnwyd cwestiwn agored i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, sef 'Sut y daethoch yn ymwybodol o'r newidiadau i'r system bresennol o roi organau?'

Yng ngham 8 dywedodd oddeutu hanner yr ymatebwyr (51 y cant) eu bod wedi dod yn ymwybodol o'r newidiadau drwy raglen newyddion neu raglen arall ar y teledu, a dywedodd oddeutu un o bob pump eu bod wedi dod yn ymwybodol ohonynt drwy hysbyseb ar y teledu (22 y cant) neu daflen (19 y cant).

Yng ngham 9 dywedodd 45 y cant eu bod wedi dod yn ymwybodol o'r newidiadau drwy raglen newyddion neu raglen arall ar y teledu, dywedodd 35 y cant eu bod wedi dod yn ymwybodol ohonynt drwy hysbyseb ar y teledu ac roedd 12 y cant wedi dod yn ymwybodol ohonynt drwy rywun arall. Gwelwyd canran yr ymatebwyr a oedd wedi dod yn ymwybodol o'r newidiadau drwy daflen yn gostwng o bron un o bob pump (19 y cant) yng ngham 8 i un o bob deg (10 y cant) yng ngham 9.


Gofynnwyd cwestiwn agored arall i'r ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r newidiadau, sef 'A allwch ddweud wrthyf sut yr ydych yn credu y bydd y system yn newid?'. Yng ngham 8 a cham 9 dywedodd oddeutu wyth o bob deg (80 y cant yng ngham 8 ac 82 y cant yng ngham 9) y byddai'n newid i system optio allan neu system cydsyniad tybiedig. Nid oedd oddeutu un o bob deg o ymatebwyr yng ngham 8 a cham 9 (9 y cant) yn gwybod.

2.3 Ymwybyddiaeth o fanylion y gyfraith ar gyfer newid y system rhoi organau

Cafodd yr holl ymatebwyr weld disgrifiad o'r system newydd ar gyfer rhoi organau a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth amdani o'r blaen.

Fel y gwelir yn Ffigur 2.4, yng ngham 8 a cham 9 dywedodd oddeutu saith o bob deg o ymatebwyr (71 y cant yng ngham 8 a 72 y cant yng ngham 9) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid.

Ffigur 2.4: A ydych wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid hwn cyn heddiw? ^a (Dangoswyd disgrifiad o'r system newydd i'r ymatebwyr)




Sylfaen: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,002 (C5 Medi 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,022 (C7 Mawrth 2015); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015)

(a) Yng nghamau 1 a 2 gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych wedi gweld neu glywed unrhyw beth o gwbl am y bwriad hwn cyn heddiw?'

Yng nghanam 8 a cham 9 nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith, yn ôl rhanbarth na rhyw.

Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl oedran a grŵp cymdeithasol ar gyfer cam 8 a cham 9. Fel y gwelir yn Ffigur 2.5, roedd oddeutu chwech o bob deg o ymatebwyr dan 35 oed wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith, o gymharu ag oddeutu tri chwarter yr ymatebwyr 35 oed neu hŷn.

Ffigur 2.5: Wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y newid yn y gyfraith, yn ôl oedran



Sylfaen: 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015)

Roedd cyfran fwy o lawer o ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 (79 y cant yng ngham 8; 81 y cant yng ngham 9) wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid yn y gyfraith, o gymharu â grwpiau cymdeithasol C2DE (64 y cant yng ngham 8; 67 y cant yng ngham 9).


3. Agweddau at newidiadau i'r system rhoi organau

3.1 Lefelau cefnogaeth i'r system optio allan

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent o blaid neu yn erbyn y newid yn y ddeddfwriaeth ynteu a oedd angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu.

Fel y gwelir yn Ffigur 3.1, mae mwyafrif clir o ymatebwyr yn parhau i gefnogi'r newid yn y ddeddfwriaeth ac roedd dwy ran o dair ohonynt (67 y cant) o'i blaid yng nghanam 8. Mewn cymhariaeth, dywedodd 14 y cant o ymatebwyr yng nghanam 8 eu bod yn erbyn y newid yn y ddeddfwriaeth.

Ffigur 3.1: Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich barn chi orau? ^a




Sylfaen: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,018 (C8 Mehefin 2015)

(a) Yng nghanamau 1 a 2 gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pa un o'r datganiadau hyn am newidiadau arfaethedig i'r system rhoi organau yng Nghymru sy'n adlewyrchu eich barn chi orau?'

Yng nghanam 8 nid oedd unrhyw wahaniaeth arwyddocaol yn y gefnogaeth yn ôl rhyw. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran a grŵp cymdeithasol.

Fel y gwelir yn Ffigur 3.2, roedd y gefnogaeth fwyaf i'r newid yn y ddeddfwriaeth i'w gweld yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru (73 y cant) ac roedd y gefnogaeth leiaf i'w gweld yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (58 y cant). Yng Ngogledd Cymru, Bae Abertawe a'r Cymoedd roedd oddeutu dwy ran o dair o'r ymatebwyr o blaid y newid.


Ffigur 3.2: Cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl rhanbarth



Sylfaen: 1,018 (C8 Mehefin 2015)

Fel y gwelir yn Ffigur 3.3, roedd y gefnogaeth i'r newid yn y ddeddfwriaeth yn lleihau ymhlith pobl hŷn ac roedd 72 y cant o'r ymatebwyr 16-34 oed o blaid y newidiadau o gymharu â 68 y cant o bobl 35-54 oed a 63 y cant o bobl 55+ oed.

Ffigur 3.3: Cyfran yr ymatebwyr a oedd o blaid y newidiadau i'r system rhoi organau, yn ôl oedran



Sylfaen: 1,018 (C8 Mehefin 2015)

Yn ogystal roedd gwahaniaeth arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol, oherwydd roedd oddeutu tri chwarter yr ymatebwyr ABC1 (74 y cant) o blaid y newid yn y ddeddfwriaeth o gymharu ag oddeutu chwech o bob deg o ymatebwyr C2DE (62 y cant).

3.2 Y rhesymau dros fod o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan

Gofynnwyd cwestiwn agored i'r ymatebwyr ynghylch pam yr oeddent o blaid neu yn erbyn newid i system optio allan o roi organau.

O blith y sawl a oedd o blaid y newid, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd y ffaith y byddai'n arbed mwy o fywydau (22 y cant), y byddai'n fanteisiol i bobl eraill (20 y cant) ac y byddai'n cynyddu nifer yr organau sydd ar gael (13 y cant).

O blith y sawl a oedd yn erbyn y newid, y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd oedd ei fod yn amddifadu'r unigolyn rhag y gallu i ddewis (37 y cant) ac nad ydynt hwy am roi organau (22 y cant).


Yn achos yr ymatebwyr a nododd fod angen rhagor o wybodaeth arnynt i benderfynu, gofynnwyd iddynt pa wybodaeth ychwanegol yr oedd ei hangen arnynt. Yr ymateb mwyaf cyffredin a gafwyd gan yr ymatebwyr hynny oedd y byddai angen mwy o fanylion arnynt ynghylch sut y byddai'r system yn gweithio (26 y cant).

4. Ymddygiad dan system feddal o optio allan o roi organau

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr beth y maent yn credu y byddant hwy'n ei wneud pan fydd y system feddal newydd o optio allan o roi organau'n cael ei chyflwyno.

Yng ngham 8 dywedodd bron dri chwarter yr ymatebwyr (73 y cant) y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim, ac mae'r gyfran honno wedi aros yn gyson ers cam 4. Mewn cymhariaeth, dywedodd 12 y cant o'r ymatebwyr yng ngham 8 y byddent yn optio allan – sy'n ostyngiad o'r 20 y cant a welwyd yng ngham 2 (Ffigur 4.1).

Ffigur 4.1: Pan gaiff y system newydd o optio allan ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r hyn yr ydych yn credu y byddwch chi'n ei wneud? ^a



Sylfaen: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,018 (C8 Mehefin 2015)


(a) Yng nghamau 1 a 2 gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pe bai'r system newydd o optio allan yn cael ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r hyn yr ydych yn credu y bydddech chi'n ei wneud?'

Yng ngham 8 nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol, yn ôl rhyw, yn y modd yr oedd yr ymatebwyr yn credu y byddent yn gweithredu dan y system newydd. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran a grŵp cymdeithasol.

Fel y gwelir yn Ffigur 4.2, er bod cyfrannau tebyg o ymatebwyr ym mhob rhanbarth wedi dweud y byddent yn optio allan, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yng nghyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim neu a ddywedodd nad oeddent yn gwybod beth y byddent yn ei wneud.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim yn amrywio o chwech o bob deg yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru (61 y cant) i wyth o bob deg yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru (79 y cant).


Ffigur 4.2: Ymddygiad a nodwyd, yn ôl rhanbarth



Sylfaen: 1,018 (C8 Mehefin 2015)

Mae Ffigur 4.3 yn dangos bod ymatebwyr 55+ oed yn llai tebygol nag ymatebwyr iau o ddweud y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim, ac yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn optio allan.

Ffigur 4.3: Ymddygiad a nodwyd, yn ôl oedran



Sylfaen: 1,018 (C8 Mehefin 2015)


Roedd gwahaniaethau arwyddocaol hefyd yn ôl grŵp cymdeithasol, oherwydd dywedodd bron wyth o bob deg o ymatebwyr ABC1 (78 y cant) y byddent yn optio i mewn neu'n gwneud dim, o gymharu â saith o bob deg o ymatebwyr C2DE (70 y cant).

4.1 Ymddygiad ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd

Ymhlith yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd (27 y cant yng ngham 8³), dywedodd bron bob un ohonynt (97 y cant) y byddent yn optio i mewn neu'n aros ar y gofrestr, sy'n cynnal y gyfran uchel a gofnodwyd yn ystod camau diweddar (Ffigur 4.4).

³ Yn ôl Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG roedd 34 y cant o'r boblogaeth yng Nghymru ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau erbyn 31 Mawrth 2015. Nid yw'r rheswm am y gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn yn eglur, ond mae gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (2012) yn awgrymu nad yw rhai pobl sy'n cario cerdyn rhoddwr bob amser yn siŵr a ydynt ar y gofrestr (gweler <http://llyw.cymru/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?lang=cy>). Yn ogystal, er y bwriedir i sampl Arolwg Omnibws Cymru gynrychioli'r boblogaeth o oedolion sy'n byw yng Nghymru a'i bod yn defnyddio mesurau rheoli cwoâu demograffig, ni chaiff cwoâu eu pennu ar gyfer statws o ran rhoi organau.

Ffigur 4.4: Ymddygiad dan y system optio allan, a nodwyd ymhlith ymatebwyr sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG ar hyn o bryd ^a




Sylfaen: 236 (C1 Mehefin 2012); 260 (C2 Mehefin 2013); 270 (C3 Tachwedd 2013); 290 (C4 Mehefin 2014); 283 (C6 Tachwedd 2014); 277 (C8 Mehefin 2015)

(a) Yng nghamau 1 a 2 gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pe bai'r system newydd o optio allan yn cael ei chyflwyno, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau'r hyn yr ydych yn credu y byddech chi'n ei wneud?'

5. Trafod dymuniadau ag aelod o'r teulu

Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'A ydych erioed wedi cael trafodaeth ag aelod o'r teulu am eich dymuniadau ynglŷn â rhoi organau ar ôl eich marwolaeth?'. Fel y gwelir yn Ffigur 5.1, oddeutu pedwar o bob deg yw cyfran yr ymatebwyr sy'n dweud eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, ym mhob un o'r camau'n gyson, nes cam 9 lle cynyddodd y gyfran i 46 y cant.

Ffigur 5.1: Cyfran yr ymatebwyr a oedd wedi cael trafodaeth rywbryd ag aelod o'r teulu am eu dymuniadau ynglŷn â rhoi organau ar ôl eu marwolaeth



Sylfaen: 1,006 (C1 Mehefin 2012); 1,015 (C2 Mehefin 2013); 1,022 (C3 Tachwedd 2013); 1,029 (C4 Mehefin 2014); 1,003 (C6 Tachwedd 2014); 1,018 (C8 Mehefin 2015); 1,008 (C9 Medi 2015)

Yng ngham 8 nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth nac oedran yng nghyfran yr ymatebwyr a oedd wedi cael trafodaeth ag aelod o'r teulu am eu dymuniadau ynglŷn â rhoi organau ar ôl eu marwolaeth. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhyw a grŵp cymdeithasol. Yng ngham 9 roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth, oedran, grŵp cymdeithasol a rhyw.

Roedd cyfran fwy o lawer o fenywod (42 y cant yng ngham 8; 52 y cant yng ngham 9) na dynion (36 y cant yng ngham 8; 41 y cant yng ngham 9) wedi cael trafodaeth ag aelod o'r teulu am eu dymuniadau ynglŷn â rhoi organau, ac roedd cyfran fwy o lawer o ymatebwyr ABC1 (46 y cant yng ngham 8; 52 y cant yng ngham 9) nag ymatebwyr C2DE (34 y cant yng ngham 8; 43 y cant yng ngham 9) wedi cael trafodaeth o'r fath. At hynny, yng ngham 9 gwelwyd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl rhanbarth ac oedran. Roedd cyfran fwy o ymatebwyr yng Nghaerdydd a De-ddwyrain Cymru (55 y cant) wedi cael trafodaeth ag aelod o'r teulu am eu dymuniadau ynglŷn â rhoi organau, ac roedd cyfran fwy o lawer o ymatebwyr 35-54 oed (56 y cant) wedi cael trafodaeth o'r fath.

6. Yr ymgyrch ‘Mae’n Amser i Ddewis’


6.1 Ymwybyddiaeth o’r ymgyrch ‘Mae’n Amser i Ddewis’

Yng nghan 9 gofynnwyd i’r ymatebwyr, yn ddigymell, ‘A ydych wedi gweld neu glywed unrhyw hysbysebion neu wybodaeth am y gyfraith newydd ynglŷn â rhoi organau yng Nghymru?’.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd eu bod wedi gweld neu glywed hysbysebion yr ymgyrch ‘Mae’n Amser i Ddewis’ ynglŷn â rhoi organau yn cyfateb i 55 y cant.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol mewn lefelau ymwybyddiaeth o hysbysebion yr ymgyrch ‘Mae’n Amser i Ddewis’, yn ôl oedran. Roedd oddeutu hanner yr ymatebwyr (48 y cant) dan 35 oed yn ymwybodol o’r hysbysebion o gymharu ag oddeutu chwech o bob deg o ymatebwyr 35 oed neu hŷn (62 y cant ar gyfer ymatebwyr 35-54 oed; 56 y cant ar gyfer ymatebwyr 55+ oed).

Ffigur 6.1: Ymwybyddiaeth o hysbysebion neu wybodaeth yr ymgyrch ‘Mae’n Amser i Ddewis’, yn ôl oedran



Sylfaen: 1,008 (C9 Medi 2015)

Yn ogystal roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn ôl grŵp cymdeithasol. Roedd cyfran fwy o ymatebwyr ABC1 yn ymwybodol o’r ymgyrch ‘Mae’n Amser i Ddewis’ (61 y cant) o gymharu ag ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol C2DE (52 y cant).

Nid oedd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn lefelau ymwybyddiaeth o’r ymgyrch yn ôl rhanbarth neu ryw.

6.2 Ffynhonnell a dealltwriaeth o'r ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis'

O blith yr ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r hysbysebion am y newidiadau i'r system rhoi organau, roedd saith o bob deg wedi dod yn ymwybodol o'r newidiadau drwy hysbyseb ar y teledu (70 y cant), roedd oddeutu un o bob pump wedi dod yn ymwybodol o'r newidiadau drwy raglen ar y teledu (19 y cant) ac roedd un o bob deg wedi dod yn ymwybodol o'r newidiadau drwy hysbyseb ar y radio (12 y cant) a thaflen (8 y cant).

6.3 Ymwybyddiaeth o daflen yr ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis'


Cafodd yr holl ymatebwyr eu holi'n benodol am daflen yr ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis'. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol: 'Hoffwn i pe baech chi'n edrych ar rai tudalennau o lyfryn gwybodaeth. A yw eich cartref wedi cael un o'r rhain drwy'r post neu beidio?'.

Roedd cyfran yr ymatebwyr a ddywedodd fod eu cartref wedi cael un yn cyfateb i 16 y cant, dywedodd oddeutu wyth o bob deg o'r ymatebwyr (81 y cant) nad oeddent wedi cael y daflen a dywedodd 4 y cant nad oeddent yn gwybod.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol ymhlith y sawl a ddywedodd eu bod wedi cael y daflen, yn ôl oedran. Nododd oddeutu un o bob deg o'r ymatebwyr dan 54 oed (13 y cant) eu bod wedi cael y daflen o gymharu ag un o bob pump (20 y cant) o'r ymatebwyr 55 oed neu hŷn.

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol hefyd yn ôl rhanbarth a rhyw. Nododd cyfran fwy o lawer o fenywod eu bod wedi cael y daflen (19 y cant) o gymharu â dynion (11 y cant), a nododd cyfran fwy o lawer o ymatebwyr yng Ngogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru (19 y cant) eu bod wedi cael y daflen o gymharu ag ymatebwyr yn y Cymoedd (10 y cant).

Ffigur 6.2: Ymwybyddiaeth o daflen yr ymgyrch 'Mae'n Amser i Ddewis', yn ôl rhanbarth



Sylfaen: 1,008 (C9 Medi 2015)

Atodiad A: Methodoleg

Bwriedir i sampl Arolwg Omnibws Cymru gynrychioli'r boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru. Yr uned samplu yw'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is, a dewisir 69 o bwyntiau cyfweld ledled Cymru gyda thebygolrwydd sy'n gymesur â'r boblogaeth sy'n byw yno, ar ôl haenu yn ôl awdurdod unedol a grŵp cymdeithasol.

Ym mhob pwynt samplu, defnyddir mesurau rheoli cwothau demograffig sy'n ymwneud ag oedran a grŵp cymdeithasol o fewn rhyw i ddewis ymatebwyr. Pennir cwothau i adlewyrchu proffil demograffig unigol pob pwynt a ddewiswyd.

Pwysolwyd y data'n ôl grŵp oedran o fewn rhyw yng ngrwpiau'r awdurdodau unedol, er mwyn rhoi'r nifer cywir i bob cell o fewn cyfanswm Cymru sy'n deillio o ganlyniadau Cyfrifiad 2011.

Dewisir sampl newydd o leoliadau cyfweld ac unigolion ar gyfer pob arolwg ac ni chynhelir cyfweiliad â mwy nag un person o bob teulu. Cynhelir y cyfweiliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi'r ymatebwyr gan ddefnyddio technoleg Cyfweiliadau Personol gyda Chymorth Cyfrifiadur.

Yng ngham 8 cafodd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg ei gynnal rhwng 8 a 21 Mehefin 2015, a chafodd rhai cyfweiliadau eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,018 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb. Yng ngham 9 cafodd y rhan fwyaf o waith maes yr arolwg ei gynnal rhwng 14 a 27 Medi 2015, a chafodd rhai cyfweiliadau eu cynnal ar ôl y dyddiad hwn. Cynhaliwyd a dadansoddwyd cyfanswm o 1,008 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb.

Samplu cwota cyfrannol

Pan gynhelir profion arwyddocâd ystadegol ar ddata arolwg, tybir bod y sampl a gafwyd yn cynrychioli sampl ar hap o'r boblogaeth berthnasol. Fodd bynnag, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio dull samplu cwota cyfrannol (yn hytrach na dull samplu ar hap) ni ellir, a bod yn fanwl gywir, sefydlu arwyddocâd ystadegol gwirioneddol⁴. Felly, pan gaiff gwahaniaeth rhwng dau is-grŵp ei ddisgrifio fel gwahaniaeth 'arwyddocaol' yn yr adroddiad hwn, cyfeirir at wahaniaeth arwyddocaol ffug-ystadegol ar lefel hyder o 95 y cant. Mae hynny'n golygu, pe bai'r arolwg yn defnyddio sampl ar hap, y byddai'r tebygolrwydd o gael y canfyddiad ar hap yn llai nag un mewn 20.

Dadansoddiad chi-sgwâr

Defnyddiwyd y prawf chi-sgwâr yn y dadansoddiad er mwyn penderfynu a yw perthynas a welwyd rhwng dau newidyn categorïaidd yn y sampl yn debygol o adlewyrchu cysylltiad gwirioneddol yn y boblogaeth (hy cyfanswm y boblogaeth 16 oed a hŷn sy'n byw yng Nghymru).

⁴ Gschwend, T (2005). Analyzing Quota Sample Data and the Peer-review Process. *French Politics*, 2005, 3, (88–91).

Diffinio rhanbarthau

Mae Tabl A.1 isod yn dangos pa awdurdodau unedol yng Nghymru sy'n ffurfio'r rhanbarthau a ddefnyddir yn y dadansoddiad.

Tabl A.1: Diffinio rhanbarthau

Rhanbarth	Awdurdodau unedol
Gogledd Cymru	Ynys Môn Gwynedd Conwy Sir Ddinbych Sir y Fflint Wrecsam
Canolbarth a Gorllewin Cymru	Ceredigion Powys Sir Benfro Sir Gaerfyrddin
Bae Abertawe	Abertawe Castell-nedd Port Talbot Pen-y-bont ar Ogwr
Y Cymoedd	Rhondda Cynon Taf Merthyr Tudful Caerffili Blaenau Gwent
Caerdydd a De-ddwyrain Cymru	Bro Morgannwg Caerdydd Casnewydd Torfaen Sir Fynwy

Diffinio grwpiau cymdeithasol

Mae Tabl A.2 isod yn diffinio'r dosbarthiad grwpiau cymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad.

Tabl A.2: Diffinio grwpiau cymdeithasol

Grŵp cymdeithasol	Diffiniad
ABC1	
A	Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel uchel
B	Rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel ganolradd
C1	Gweithwyr goruchwylio, gweithwyr clerigol a rheolwyr, gweithwyr gweinyddol neu weithwyr proffesiynol lefel is
C2DE	
C2	Gweithwyr llaw medrus
D	Gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft
E	Y sawl sy'n cael pensiwn y wladwriaeth, gweithwyr achlysurol neu weithwyr ar y raddfa isaf, pobl ddi-waith sy'n cael budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig

Meintiau'r is-samplau

Mae Tabl A.3 isod yn dangos nifer yr ymatebwyr ar gyfer pob is-sampl a ddefnyddiwyd wrth ddadansoddi data mis Mehefin 2015 a mis Medi 2015. Nodir nifer yr ymatebwyr ar gyfer y samplau heb eu pwysoli a'r samplau wedi'u pwysoli.

Tabl A.3: Niferoedd is-samplau yn ôl rhanbarth, oedran, rhyw a grŵp cymdeithasol

	Mehefin 2015		Medi 2015	
	Sampl heb ei pwysoli	Sampl wedi'i pwysoli	Sampl heb ei pwysoli	Sampl wedi'i pwysoli
Rhanbarth				
Gogledd Cymru	259	229	247	227
Canolbarth a Gorllewin Cymru	162	173	160	171
Bae Abertawe	173	173	168	171
Y Cymoedd	175	178	195	177
Caerdydd a De-ddwyrain Cymru	249	264	238	262
Oedran				
16 – 34 oed	309	298	285	295
35 – 54 oed	280	332	271	328
55+ oed	429	388	450	383
Rhyw				
Dynion	456	495	454	489
Menywod	562	523	554	519
Grŵp cymdeithasol				
ABC1	425	433	428	431
C2DE	587	579	574	570

Atodiad B: Holiadur

Organ Donation Omnibus Questions Wave 8

And now changing the subject, I'd like to ask you a few questions about organ donation.

Q1. Can you tell me how you think the current system of organ donation works – that is, how do you think organs get donated?

PROBE FOR DETAIL: Anything else?

OPEN ENDED

Could you read this card please

SHOWCARD

Currently people in Wales can opt in to join the NHS Organ Donor Register if they wish to donate their organs after their death. It's normal practice for doctors to let relatives know if the person has opted in and doctors will encourage families to accept that, but will not proceed if families will not agree to the process. If you have not joined the Register, your family can consent to donate your organs after your death.

Q2. Are you aware of any changes that will be taking place to the current organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q2a. How did you become aware of the changes to the current organ donation system?

DO NOT PROMPT

On TV – news / programme
On TV - advertising

On the radio – news / programme
On the radio – advertising

In a local newspaper – news / article
In a local newspaper – advertising

In a national Wales newspaper – news / article
In a national Wales newspaper – advertising

In a national UK newspaper – news / article
In a national UK newspaper – advertising

Online / website – news item
Online / website – other

In a magazine
Poster
Leaflet
Someone told me
Other, please specify

ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2

Q3. Can you tell me how you think the system will change?

OPEN ENDED

Please take a look at this card

SHOWCARD

The National Assembly for Wales has passed a law to change the organ donation procedure to a 'soft opt out' system. From December 2015 people will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The law will allow family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue.

Q4. Before today, have you seen or heard anything about this change?

- Yes
- No
- Don't know

WAVE 9 QUESTIONS STOP HERE

Q5. Which of these statements about changes to the organ donation system in Wales best reflects your view?

REFER TO SHOWCARD IF NECESSARY: People will be given the opportunity to formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue

- I am in favour of this change in legislation
- I am against this change in legislation
- I need more information to decide
- Don't know

ASK IF IN FAVOUR OF CHANGE AT Q5

Q6a. Can you tell me why you are in favour of the change in legislation?

OPEN ENDED

ASK IF AGAINST CHANGE AT Q5

Q6b. Can you tell me why you are against the change in legislation?

OPEN ENDED

ASK IF NEED MORE INFORMATION AT Q5

Q6c. Can you tell me what additional information you need?

OPEN ENDED

SHOWCARD

Q7. When the new system of opting out is introduced, which of the following best describes what you think you will do?

- I will register a wish **not** to be a donor (i.e. opt out)
- I will register a wish to be a donor (i.e. opt in)
- I've already registered a wish to be a donor (and will take no further action – i.e. remain opted in)
- I've not registered a wish to be a donor, but I **don't** think I'll opt out of being one
- Don't know

INTERVIEWER NOTE: If respondent without prompting mentions something other than the answers on the card or DK, please record here:

Q8a/b/c/d. Can you tell me why that is [ANSWER AT Q7]?

OPEN ENDED

Q9. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

Q10. And can you tell me if you are currently registered on the NHS Organ Donor Register?

- Yes
- No
- Don't know

**Organ Donation Omnibus Questions
Wave 9**

And now changing the subject, I'd like to ask you a few questions about organ donation.

Q1. Can you tell me how you think the current system of organ donation works – that is, how do you think organs get donated?

PROBE FOR DETAIL: Anything else?

OPEN ENDED

Could you read this card please

SHOWCARD

Currently people in Wales can opt in to join the NHS Organ Donor Register if they wish to donate their organs after their death. It's normal practice for doctors to let relatives know if the person has opted in and doctors will encourage families to accept that, but will not proceed if families will not agree to the process. If you have not joined the Register, your family can consent to donate your organs after your death.

Q2. Are you aware of any changes that will be taking place to the current organ donation system?

- Yes
- No
- Don't know

[ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2](#)

Q2a. How did you become aware of the changes to the current organ donation system?

DO NOT PROMPT

On TV – news / programme
On TV - advertising

On the radio – news / programme
On the radio – advertising

In a local newspaper – news / article
In a local newspaper – advertising

In a national Wales newspaper – news / article
In a national Wales newspaper – advertising

In a national UK newspaper – news / article
In a national UK newspaper – advertising

Online / website – news item
Online / website – other

In a magazine
Poster
Leaflet
Someone told me

Other, please specify

[ASK IF AWARE OF ANY CHANGES AT Q2](#)

Q3. Can you tell me how you think the system will change?

OPEN ENDED

Please take a look at this card

SHOWCARD

The National Assembly for Wales has passed a law to change the organ donation procedure to a 'soft opt out' system which comes into force from December 2015. People can now formally 'opt out' of organ donation by placing their name on a register. If they choose not to do so, having had the opportunity, then this will be treated as a decision to be a donor, and one which families will be sensitively encouraged to accept. The law will allow family members to object to donation on the basis that they know the deceased person would not have wished to consent. The opportunity to 'opt in' and register a decision to be a donor will continue.

Q4. Before today, have you seen or heard anything about this change?

- Yes
- No
- Don't know

Q5. Have you ever discussed your wishes regarding organ donation after your death with a family member?

- Yes
- No

**'It's Time to Choose' campaign questions [separate part of omnibus questionnaire]
September 2015**

ASK ALL

Q1. Have you seen or heard any adverts or information about the new organ donation law in Wales?

- Yes
- No
- Don't know

ASK THOSE AWARE OF ADVERTS AT Q1

Q2. Can you describe what you have seen or heard?

PROMPT: What are the main messages of the adverts?
PROMPT: Anything else?

RECORD VERBATIM

ASK THOSE AWARE OF ADVERTS AT Q1

Q3. Where did you see or hear the adverts?

DO NOT PROMPT

TV advert
TV programme
Sponsorship of TV programme

Radio advert
Radio programme

Poster - in street
Poster – on a bus / train
Poster – at a bus / train station
Poster – unspecific

Newspaper advert
Newspaper article

Magazine advert
Magazine article

Post card
Leaflet

Social media – e.g. facebook, twitter
Organ Donation Wales website
Any mention of Government website
Any other website (please specify)
Internet / website (unspecific)

At an event / roadshow
Mobile Advertising Van

Someone told me about it
At work

Other (please specify)
DK

[ASK ALL](#)

SHOW INFORMATION BOOKLET

Q4. I'd like you to take a look at this information booklet. Has your household received one of these in the post or not?

- Yes
- No
- Don't know

[ORDER OF Q5a/b/c TO BE ROTATED](#)

[ASK ALL](#)

PLAY TV ADVERT

Q5a. I'd like you watch this advert. Can you tell me if you have seen this before or not?

- Yes
- No
- Don't know

[ASK ALL](#)

PLAY RADIO ADVERT

Q5b. I'd like you to listen to this advert. Have you heard this before or not?

- Yes
- No
- Don't know

[ASK ALL](#)

SHOW BUS POSTER

Q5c. I'd like you to take a look at this advert. Have you seen this before or not?

- Yes
- No
- Don't know

ASK ALL

Q6. What do you think are the main messages that the adverts and information booklet are trying to get across?

PROMPT: Anything else?

RECORD VERBATIM

ASK ALL

Q7. I'm now going to read out some statements that other people have said about the adverts and information booklet I have shown you. I'd like you to tell me to what extent you agree or disagree with each one. There are no right or wrong answers – it's just your personal opinion we are interested in.
So firstly ...

ORDER OF STATEMENTS TO BE RANDOMISED BETWEEN RESPONDENTS

- They are easy to understand
- They are not aimed at people like me
- They have made me think about my own organ donation decision
- They encourage me to make a choice about my organ donation decision
- They have not encouraged me to discuss organ donation with my family

SHOW CARD

Strongly agree

Agree

Neither agree nor disagree

Disagree

Strongly disagree

Don't know